# Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

**Nos Iau, 24 Tachwedd 2016**
**7.00 yh**

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

### 2. Materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau

Cyflwyniad gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

### 3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:

**3.1** 21 Gorffennaf 2016. **(Papur A)**

**3.2** 20 Hydref 2016 **(Papur B)**

### 4. Grŵp Rhanddeiliaid

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2016. **(Papur C)**

Mation yn codi:

**4.1 Toiledau Cyhoeddus** - diweddariad

# Town and Community Councils Liaison Meeting

**Thursday, 24 November 2016**
**7.00 pm**

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Agenda

### 1. Welcome and Apologies

### 2. Matters arising from the Standards Committee

Presentation by the Chair and Vice-chair of the Standards Committee.

### 3. Confirmation of Minutes

To confirm the minutes of the meetings held on:

**3.1** 21 July 2016. **(Paper A)**

**3.2** 20 October 2016 **(Paper B)**

### 4. Stakeholder Group

To submit the minutes of the meeting held on 26 October 2016. **(Paper C)**

Matters Arising:

**4.1 Public Conveniences** - update

## 5. Cwrdd â'r Heriau: Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2017/18

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith:

## 5. Meeting the Challenges: Initial Budget Proposals 2017/18

To consider the Executive's initial budget proposals:

**Cymraeg:** http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/cwrdd-r-heriau-ein-cynigion-cychwynnol-ar-gyfer-cyllideb-2017/18/130325.article

**English:** http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/consultations/meeting-the-challenges-our-initial-budget-proposals-2017/18/130323.article?redirect=false

Fersiwn pdf o'r ddogfen ymgynghori'n amgaeedig hefyd.

Consultation document in pdf version also enclosed.

## 6. Gwydnwch Cymunedau

Cyflwyniad gan Eilwen Jones, Swyddog Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol.

## 6. Community Resilience

Presentation by Eilwen Jones, Regional Emergency Planning Officer.

## 7. Siarter Cymuned ar y Cyd

Diweddariad gan Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 7. Shared Community Charter

Update from Huw Jones, Head of Democratic Services.

## 8. Fforwm Strategaeth Iaith Ynys Môn – Strategaeth Iaith 2016 – 2021

## 8. Anglesey Welsh Language Strategic Forum - Welsh Language Strategy 2016 – 2021

## 9. Etholiadau Lleol 2017

## 9. 2017 Local Elections

## 10. Unrhyw fater arall

## 10. Any other business

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 21 Gorffennaf 2016
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Yn bresennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng John Griffith | Cwm Cadnant / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Elfed Jones | Llanbadrig |
| Cyng Gareth Jones | Llanbadrig |
| Cyng Gwilym O Jones | Llanfair yn Neubwll / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Dyfed Williams | Llanfair yn Neubwll |
| Cyng Hanna Huws | Llanfairpwll |
| Cyng Gareth C Jones | Llanfairpwll |
| Cyng R Meirion Jones | Llanfairpwll / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Ian Owen | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng J E Lewis | Llangefni / Bodffordd |
| Cyng Dylan Rees | Llangefni / Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng Margaret Thomas | Llangefni |
| Cyng Sandra Thomas | Llanidan |
| Cyng A W Jones | Mechell |
| Cyng Richard Barker | Porthaethwy |
| Meinir Davies (Clerc) | Porthaethwy |
| Cyng Alan Benson | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Anna Jones (Clerc) | Tref Alaw |
| Cyng Gordon Browne | Y Fali |
| Cyng Mavis Swaine-Williams | Y Fali |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan (Cadeirydd) | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Llio Johnson | Uwch Reolwr Partneriaethau |
| Alwyn Jones | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| Elin Williams | Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Pobl Hŷn |
| John Thomas | Rheolwr Trawsnewid TGCh |
| Gwyndaf Jones | Prif Swyddog Cynllunio |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol nad oedd y Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor, yn gallu bod yn bresennol gan iddo golli ei fam yn ddiweddar. Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Ieuan Williams ar ei brofedigaeth.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 1. Ymddiheuriadau

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyng Gwynn Jones – Amlwch
Cyng Stan Zalot – Biwmares
Cyng Derek Owen - Llanbadrig
Cyng Diana Roberts – Llanfair ME
Cyng Delyth Owen - Llanfaelog
Geraint Parry (Clerc) – Llangoed a Llanddona
Cyng Edna Jones, Margaret Price (Clerc) – Trewalchmai

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng Ieuan Williams (Arweinydd); Cyng J Arwel Roberts (Dirprwy Arweinydd).
Cyng Llinos Medi Huws, Derlwyn R Hughes, Alun Mummery.
Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr).

## 2. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod ar gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2016 fel rhai cywir. O ran eitem 3.2 – Teclyn Partneriaethol – nodwyd fel a ganlyn:

- bod y teclyn wedi cael ei symleiddio, wrthi'n cael ei gyfieithu ac y byddai'n cael ei gylchredeg maes o law;

- y bwriedir cynnal gweithdai esboniadol mewn gwahanol ardaloedd ar yr ynys, a hynny rhwng Medi a Rhagfyr.

## 2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Ymgynghori gyda'r cymunedau

Fel dilyniant i'r cyflwyniad a wnaed i gyfarfod diwethaf y Fforwm, cafwyd diweddariad gan Llio Johnson, Uwch Reolwr Partneriaethau, ar y broses ymgysylltu ac ymgynghori a fydd yn rhan o gwblhau'r Asesiad o Lesiant lleol y bydd rhaid ei gyhoeddi cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

Nodwyd y bwriad i gynnal yr ymarferion ymgysylltu yn ystod Hydref a Thachwedd a chael drafft cychwynnol o'r Asesiad yn barod ar gyfer mis Rhagfyr. Rhestrir isod yr ardaloedd asesiad llesiant arfaethedig:

1 – Caergybi ac Ynys Cybi
2 – Talybolion
3 – Lligwy a Thwrcelyn
4 – Aethwy a Seiriol
5 – Bro Aberffraw a Bro Rhosyr
6 – Canolbarth Môn a Llifon

Mewn ymateb i gwestiynau o'r llawr, eglurodd Llio Johnson mai darlun o'r sefyllfa bresennol o ran llesiant fydd yr Asesiad, yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys data sydd ar gael o ran iechyd y boblogaeth o fewn ardaloedd penodedig. Ychwanegodd y byddai'r Asesiad ar gael i'w ddefnyddio er mwyn cynnal asesiadau effaith a gynhelir yn y dyfodol, ee Wylfa.

Mewn ymateb i gwestiwn penodol ynghylch y broses ymgysylltu, eglurodd Llio Johnson bod canllawiau cenedlaethol mewn lle o ran y math o gwestiynau y dylid eu gofyn ac y byddai'n fwy na bodlon i rannu'r cwestiynau gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ymlaen llaw.

**Gweithredu:** Y cwestiynau arfaethedig ar gyfer y broses ymgysylltu i'w rhannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau Etholedig y Cyngor Sir, gyda manylion cyswllt ar gyfer derbyn sylwadau.

3. **Gwefan 'Dewis Cymru'**

Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, ac Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Pobl Hŷn, ar y wefan uchod a lansiwyd yn swyddogol ar 30 Mehefin eleni ac sy'n cefnogi llesiant oedolion a theuluoedd ar draws Cymru. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth sy'n gallu helpu unigolion i feddwl am beth sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol sy'n gallu helpu. Gofynnwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned godi ymwybyddiaeth ymysg eu cymunedau am yr adnodd hwn ac annog unigolion a grwpiau lleol i gofrestru a chynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Nodwyd bod cymorth hefyd ar gael gan Medrwn Môn o ran sut i lwytho gwybodaeth ar y wefan.

**Gweithredu:** Y ddolen ar gyfer gwefan Dewis Cymru, ynghyd â manylion cyswllt eraill, i'w cylchredeg i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

4. **Cyfraddau Ailgylchu**

Cafwyd cyflwyniad gan Annwen Morgan ar gyfraddau ailgylchu ar yr ynys, mewn ymateb i gais a gafwyd yng nghyfarfod y Fforwm ar 19 Tachwedd 2015. Nodwyd mai'r targedau ailgylchu oedd 58% yn 2015/16; 64% yn 2019/20 a 70% yn 2024/25.

Gall methu a chyrraedd y targedau statudol yma arwain ar ddirwy gan Lywodraeth Cymru o £200 y dunnell, yn seiliedig ar y nifer o dunelli yr ydym yn is na'r targed. I Ynys Môn, golygai hyn y byddai rhaid i'r Cyngor dalu tua £80k mewn dirwyon am bob 1% yn waeth na'r targed ailgylchu. Cyrhaeddwyd targed 2015/16, gyda chyfradd ailgylchu o 59.5%.

Gwnaed y sylwadau a'r ymholiadau canlynol fel rhan o'r drafodaeth ddilynol:


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

4.1 Dylid codi ymwybyddiaeth am lwyddiant y Cyngor wrth gyrraedd targed ailgylchu 2015/16, yn ogystal â heriadau'r dyfodol, trwy ddatganiad i'r wasg, gyda chopi i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

4.2 Nid pawb sy'n gwybod am y Cynllun Caniatâd sy'n bodoli yn y canolfannau ailgylchu ar gyfer cerbydau megis fan fechan, car gyda threlar ayyb – oes modd codi ymwybyddiaeth?

4.3 A yw gwastraff swmpus yn cael ei ailgylchu?

4.4 Beth yw costau delio gyda gwastraff anghyfreithlon (fly tipping)?

4.5 Nid pawb sy'n fodlon gwneud yr ymdrech i ailgylchu – beth fyddai costau sefydlu canolfan yn lleol er mwyn trin gwastraff?

4.6 Oes modd enwi unigolion sy'n gwrthod cydymffurfio gyda gofynion ailgylchu er mwyn codi cywilydd arnynt?

4.7 Mae perygl y bydd symud at gasglu gwastraff pob tair wythnos yn arwain at golli ewyllys da o ran ymdrechion i ailgylchu.

**Gweithredu:** Ymatebion i'r materion uchod, lle mae hynny'n berthnasol, i'w cylchredeg i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

5. **Grŵp Rhanddeiliaid**

Nodwyd, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Grŵp Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016. Yn codi:

**Toiledau cyhoeddus**

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at y ffaith bod y Cyngor wedi ysgrifennu at y Cynghorau Cymuned perthnasol yn cynnig trosglwyddo cyfrifoldeb iddynt am y toiledau cyhoeddus yn eu hardal. Nodwyd y mynegwyd diddordeb ym mhob un ond 3 o'r toiledau, sef Llanddona, Rhoscolyn a Thraeth Bychan.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod y Cynghorau Cymuned a oedd wedi mynegi diddordeb wedi derbyn manylion am y costau rhedeg hanesyddol ynghyd â phenawdau telerau drafft. Nododd bod angen gwariant ychwanegol ar rai o'r toiledau oherwydd cyflwr yr adeiladau ac eglurodd bod y Cyngor yn dymuno trafod ymhellach gyda'r Cynghorau Cymuned yr opsiynau o ran darparu cymorth ariannol, ynghyd ag unrhyw fanylion eraill y dymunai'r cymunedau drafod. Ychwanegodd y byddai'r cymorth yn cynnwys ymrwymiad parhaus gan y Cyngor Sir o ran costau'r Dreth Gyngor.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Pwysleisiwyd y byddai'n rhaid cau'r toiledau a gwerthu'r adeiladau os na fyddai'n bosibl eu trosglwyddo erbyn y daw contract glanhau'r Cyngor Sir i ben ar ddiwedd Mawrth 2017. Anogwyd y cynghorau perthnasol i gysylltu gyda'r Cyngor cyn gynted a phosibl er mwyn parhau trafodaethau.

Mynegwyd siom gan Gyngor Cymuned y Fali nad oedd y cynigion yma ar gael iddynt pan oedd y Cyngor Sir yn ceisio trosglwyddo toiledau cyhoeddus yn y gorffennol.

6. **Y Grid Cenedlaethol – Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru**

Cafwyd cyflwyniad gan Annwen Morgan ar y prosesau ymgynghori statudol sydd i'w cynnal dros y misoedd nesaf mewn perthynas â'r uchod. Nodwyd mai dyma fyddai cyfle olaf y Cynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno sylwadau i'r Grid Cenedlaethol ac fe'u hanogwyd i ymateb i'r ymgynghoriad.

Pwysleisiodd mai pwrpas y cyflwyniad hwn oedd codi ymwybyddiaeth am y broses a chynnig gwneud trefniadau i Gynghorau Tref a Chymuned gael mynediad at arbenigedd technegol annibynnol. Awgrymodd Annwen Morgan y byddai modd trefnu bod cwmni annibynnol ar gael am ddiwrnod, pryd y gallai Cynghorau Tref a Chymuned alw i mewn i'w gweld. Cafwyd awgrym o'r llawr y dylid cael trafodaeth rhwng yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn y lle cyntaf.

Cafwyd cais hefyd i ail-drefnu cyfarfod rhwng y Grwp Gwrth-Beilonau a'r Cyngor Sir a ohiriwyd ym mis Rhagfyr 2015.

**Gweithredu:**

Swyddfa Rheoli Prosiectau'r Cyngor i wneud y trefniadau priodol o ran cynnig cefnogaeth arbenigol annibynnol.

Y cyfarfod a ohiriwyd ym mis Rhagfyr 2015 i'w ail-drefnu.

7. **AppMôn**

Cafwyd cyflwyniad gan John Thomas, Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh, ar AppMôn, sef ap newydd, diogel a hollol ddwyieithog y Cyngor Sir sy'n ei gwneud yn hawdd gofyn am wasanaethau neu roi gwybodaeth am broblemau ar unrhyw adeg neu o unrhyw le gan ddefnyddio ffôn clyfar neu dabled.

Anogwyd y Cynghorau Tref a Chymuned i ddefnyddio a chodi ymwybyddiaeth am yr Ap yn eu cymunedau.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

8. **Fforwm Sgriwtini**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, raglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini yn y Cyngor Sir, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Cafwyd amlinelliad o rôl y ddau Bwyllgor gan Geraint Wyn Roberts, Swyddog Sgriwtini, a dywedodd mai bwriad cyflwyno’r rhaglenni gwaith oedd codi proffil y swyddogaeth sgriwtini ac ychwanegu at wybodaeth pobl am y weithdrefn. Eglurodd hefyd bod y rhaglenni gwaith a rhaglenni’r cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Materion ychwanegol:

9. **Rhaglenni a chofnodion y Fforwm Cyswllt**

Gofynnwyd am broses fwy ffurfiol er mwyn caniatáu i’r Cynghorau Tref a Chymuned gynnwys eitemau ar raglenni cyfarfodydd y Fforwm Cyswllt ac i gofnodion y cyfarfodydd gael eu cylchredeg mewn da bryd.

Pwysleisiodd Annwen Morgan bod y Cyngor Sir bob amser yn croesawu ceisiadau am eitemau penodol.

**Gweithredu:** Gwahoddiad i’r Cynghorau Cymuned gyflwyno cais am eitemau i’w gylchredeg gyda’r rhagrybudd am ddyddiadau cyfarfodydd.

10. **Siarter Cymuned ar y Cyd**

Mewn ymateb i ymholiad am y sefyllfa bresennol o ran y Siarter ar y Cyd, eglurodd Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ei fod yn bwriadu cael cyfarfod i drafod hyn ym mis Medi gyda Luned Evans, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru, Un Llais Cymru, ac y byddai’n adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Fforwm hwn.

**Gweithredu**: Y Siarter ar y Cyd i’w gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Fforwm Cyswllt.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 yh.


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
**Ymateb Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor i'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Fforwm ar 21 Gorffennaf 2016**

1. **Dylid codi ymwybyddiaeth am lwyddiant y Cyngor wrth gyrraedd targed ailgylchu 2015/16, yn ogystal â heriadau'r dyfodol, trwy ddatganiad i'r wasg, gyda chopi i'r Cynghorau Tref a Chymuned.**

   Mae hwn ar yr agenda ond rydym yn dal yn ôl ar hyn o bryd er mwyn disgwyl i'r cyfradd ailgylchu gael ei gadarnhau yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru (ffigyrau drafft sydd gennym ar hyn o bryd).

2. **Nid pawb sy'n gwybod am y Cynllun Caniatâd sy'n bodoli yn y canolfannau ailgylchu ar gyfer cerbydau megis fan fechan, car gyda threlar ayyb – oes modd codi ymwybyddiaeth?**

   Yn dilyn cyflwyniad o'r cynllun yma yn 2013 bu llawer o ddatganiadau i'r wasg yn egluro'r newidiadau yn ogystal â defnyddio Facebook a Twitter y Cyngor i'w hysbysebu. Mae'r holl wybodaeth ynglyn â'r cynllun ar wefan y Cyngor ac mae staff yn swyddfa Rheoli Gwastraff a staff y safle yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn barhaol gan ateb cwestiynau ayyb.

3. **A yw gwastraff swmpus yn cael ei ailgylchu?**

   Ydy, hynny sy'n ailgylchadwy e.e. metel, coed, eitemau electronig yn cynnwys rhewgelloedd ac oergelloedd, dodrefn.

4. **Beth yw costau delio gyda gwastraff anghyfreithlon (fly tipping)?**

   Fel rhan o'r contract gyda Biffa, mae casglu gwastraff sydd wedi cael ei dipio yn anghyfreithlon yn rhan o wasanaeth fwy eang sy'n cynnwys glanhau strydoedd, 'sgubo, glanhau traethau a gwagio biniau sbwriel. O ganlyniad i hyn, does dim ffigwr pendant ar wahân sy'n dangos y gwir gost am glirio tipio anghyfreithlon yn unig.

5. **Nid pawb sy'n fodlon gwneud yr ymdrech i ailgylchu – beth fyddai costau sefydlu canolfan yn lleol er mwyn trin gwastraff?**

   Oherwydd y tunnelli isel o wastraff gweddilliol ar Ynys Môn, nid yw'n gost effeithiol i sefydlu safle trin gwastraff yn lleol, er enghraifft safle ynni llosgi gwastraff. Oherwydd hyn, fel rhan o bartneriaeth o 5 Cyngor ar draws Gogledd Cymru, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio ar y cŷd er mwyn sefydlu safle ynni llosgi gwastraff a fydd yn derbyn cyfanswm llawer uwch sy'n fwy cost effeithiol a chynaliadwy.

**6. Oes modd enwi unigolion sy'n gwrthod cydymffurfio gyda gofynion ailgylchu er mwyn codi cywilydd arnynt?**

Ni fuasai'r Adain Rheoli Gwastraff yn awgrymu enwi unigolion ar hyn o bryd. Gwell gweithio gydag unigolion i addysgu a hybu ailgylchu ar hyn o bryd. Bydd y symud i gasgliadau gwastraff gweddilliol pob 3 wythnos yn ogystal yn hybu unigolion i ailgylchu mwy.

**7. Mae perygl y bydd symud at gasglu gwastraff pob tair wythnos yn arwain at golli ewyllys da o ran ymdrechion i ailgylchu.**

Fel rhan o gasgliadau gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos, bydd pob un tŷ ar Ynys Môn yn derbyn bocs ailgylchu ychwanegol er mwyn ailgylchu rhagor o ddeunyddiau. Bydd hyn yn lleihau'r gwastraff yn y bin du ac yn cynyddu'r cyfanswm o wastraff a fydd yn cael ei ailgylchu.

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**
Nodiadau'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar nos Iau, 20 Hydref 2016
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Presennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned (CT&Ch)**

| | |
|---|---|
| Cyng S Zalot | Biwmares |
| Cyng A Hughes | Bodorgan |
| Cyng Elfed Jones | Llanbadrig |
| Cyng M J Roberts | Llanddona |
| Cyng Hanna Huws | Llanfairpwll |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Cyng J E Lewis | Llangefni / Bodffordd |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Ieuan Williams | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

Cyng Llinos Medi; Neville Evans (sylwedydd)

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peter Hulson, Rod Griffin | Arup |

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y canlynol:

Cyngor Tref Amlwch
Cyngor Tref Caergybi
Cyngor Cymuned Bodedern
Cyngor Cymuned Cemaes
Cyngor Cymuned Llaneilian
Cyngor Cymuned Tref Alaw
Cyngor Cymuned Trewalchmai

Y Cynghorwyr John Griffith, Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)
Katharine Harper Williams (Medrwn Môn)


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**2. Arup – Ymgynghorwyr arbenigol annibynnol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y Grid Cenedlaethol – Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru**

Eglurodd yr Arweinydd bod y cyfarfod hwn wedi'i drefnu er mwyn cynnig cyngor arbenigol annibynnol i gynghorau tref a chymuned mewn perthynas â'r broses ymgynghori uchod. Croesawodd Peter Hulson a Rod Griffin o Arup, ymgynghorwyr arbenigol annibynnol y Cyngor Sir ar y Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, a oedd yn bresennol i'r pwrpas yma.

Yna, cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan gynrychiolwyr Arup, yn egluro'r cyd-destun i Ymgynghoriad Adran 42 y Grid Cenedlaethol, sut y gall Cynghorau Tref a Chymuned gymryd rhan yn y broses a darparu cymorth o ran sut i ymateb i gynigion prosiect y Grid. Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn holi ac ateb. Mae'r prif bwyntiau cyffredinol a gyfyd yn ystod y cyfarfod wedi'u crynhoi isod:

(1) Mae'r Grid Cenedlaethol wedi darparu ffurflen adborth i'r ymgynghoriad fel rhan o'u pecyn ymgynghori, sydd yn ddefnyddiol, ond gellir ymateb ym mha bynnag fformat yr ystyrir i fod yn addas.

(2) Dylid cefnogi gosodiadau gyda thystiolaeth wiriadwy, lle bynnag y mae hynny'n bosibl.

(3) Dylid gosod allan yn eglur y rhesymu a buddiannau unrhyw gynnig amgen a gyflwynir.

(4) Dylid ymgorffori cyfeiriadau at brosiectau eraill (gan nodi'n benodol brosiectau cysylltiad trawsyriant / dosbarthiad) diweddar a chyfeirio at y rhesymu y tu cefn i'r achosion hynny fel cymhariaeth. Dylid tynnu allan dehongliadau'r rhwymedigaethau / arweiniad statudol rhwng y prosiectau hynny a'r Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, lle mae hynny'n berthnasol.

(5) Mae gan y Grid Cenedlaethol ddyletswydd i roi sylw i'r holl ymatebion y maent yn eu derbyn yn ystod ymgynghori. Er y dylid gwneud ymdrech i ymateb o fewn y dyddiad cau, sef 16 Rhagfyr 2016, dylid nodi hefyd bod gwerth mewn parhau i gyflwyno sylwadau trwodd i'r cyflwyno ac i mewn i'r Archwiliad.

(6) Mae'n bwysig defnyddio pob llwybr sydd ar gael i wneud sylwadau ar gynnwys a strwythur yr ymgynghoriad.

(7) Roedd cynrychiolwyr y CT&Ch o'r farn y dylid gwneud sylwadau ar yr effaith ar dwristiaeth a busnesau bach a gofynnwyd am gymorth gan y Cyngor Sir i gael data er mwyn cefnogi'r achos.

**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr Cynorthwyol i ofyn i wasanaeth Datblygu Economaidd y Cyngor am unrhyw ddata perthnasol ar dwristiaeth a gofyn i Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn am unrhyw ddata perthnasol i'w cylchredeg i'r CT&Ch.

(8) Nodwyd, er gwybodaeth, bod Pwyllgor Ardal lleol Un Llais Cymru hefyd yn gweithio ar ymateb i'r ymgynghoriad. Mae Panel sy'n cynnwys aelodau cyfetholedig allanol wedi'u ffurfio ac yn gweithio ar ymateb ar ran CT&Ch Ynys Môn.

(9) Roedd y cynrychiolwyr CT&Ch yn bresennol yn gytûn bod cysondeb yn bwysig yn yr ymatebion ac y dylid annog pob cyngor tref a chymuned i ymateb i'r ymgynghoriad.

Rhoddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol sicrwydd y byddai'r pwyntiau penodol a godwyd gan y cynrychiolwyr CT&Ch yn bresennol yn y cyfarfod hwn yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan y Cyngor Sir wrth baratoi'r Adroddiad gofynnol ar yr effaith yn lleol. Gofynnwyd i Arup ddarparu copi o'u cyflwyniad 'PowerPoint', ynghyd â dolenni defnyddiol eraill i'w cylchredeg i'r CT&Ch.

**Gweithredu:**

Arup i ddanfon ymlaen i'r Cyngor Sir gopi o'r cyflwyniad, ynghyd â dolenni at y defnydd ymgynghori ac unrhyw ffynonellau defnyddiol eraill er mwyn eu cylchredeg i'r CT&Ch.

Copïau caled o'r ffurflen adborth i'r ymgynghoriad i fod ar gael yng Nghanolfan Fusnes y Cyngor.

**3. Cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Fforwm Cyswllt ar nos Iau, 24 Tachwedd 2016 am 7.00 yh.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 yh.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Grŵp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2016 am 5.30 yh

Yn bresennol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Richard Barker | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyng J E Lewis | Cyngor Cymuned Bodffordd/Tref Llangefni |
| Cyng Margaret Thomas | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyng Einion Williams | Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog |
| Cyng Stan Zalot | Cyngor Tref Biwmares |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Ieuan Williams | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Bethan Hughes-Jones | Cydlynydd Addysg Gydol Oes (ar gyfer eitem 2) |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

**Menter Môn** - Jackie Lewis; Bethan Fraser-Williams; Martin Price (ymgynghorydd).

Cyfeiriodd yr Arweinydd at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Gwynn Jones, cynrychiolydd Cyngor Tref Amlwch ar y Grŵp hwn. Safodd pawb a oedd yn bresennol am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

## 1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 fel rhai cywir.

Yn codi:

### Teclyn Partneriaethol

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod y fersiwn haws i'w darllen o'r Teclyn Partneriaethol bellach wedi'i gwblhau'n derfynol ac y byddai'n ymddangos o dan 'Cymuned' ar wefan y Cyngor yn y man, ynghyd â'r fersiwn gwreiddiol o'r Teclyn a Pholisi Partneriaethau'r Cyngor. O ran y gweithdai esboniadol, nodwyd y bwriad i gyfeirio at y teclyn yn ystod y sesiynau ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws yr ynys cyn y Nadolig.

## 2. Trosglwyddo Llyfrgelloedd

Nodwyd y comisiynwyd Martin Price Associates gan Menter Môn i gynnal astudiaeth o ymarferoldeb darparu gwasanaeth llyfrgelloedd mewn partneriaeth rhwng y Cyngor Sir a sefydliadau cymunedol. Cafwyd cyflwyniad gan Martin Price a oedd yn seiliedig ar adroddiad a baratowyd ganddo ar ganfyddiadau'r astudiaeth.

Roedd yr adroddiad yn edrych ar saith o'r llyfrgelloedd - Amlwch, Biwmares, Benllech, Cemaes, Porthaethwy, Rhosneigr a Niwbwrch. Nodwyd y byddai llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi, yn ogystal â'r llyfrgell deithiol, yn aros o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor Sir o dan unrhyw fodel a fabwysiedir.

Crynhoir y prif bwyntiau a drafodwyd isod:

- Y dylid sicrhau cefnogaeth y boblogaeth leol ar y cychwyn, o gofio bod angen denu niferoedd uchel o wirfoddolwyr.

- Byddai creu, neu ymestyn cylch gorchwyl, sefydliad cymunedol sydd â statws elusennol yn arwain at arbedion sylweddol trwy eithrio 80% o'r dreth fusnes (NNDR).

- O gofio bod pob un o'r llyfrgelloedd dan sylw ar agor am hanner yr wythnos neu lai, bod angen adnabod mentrau dyfeisgar er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau hyn y tu allan i'r oriau llyfrgell.

- Dylai'r Cyngor Sir weithio gyda'r sefydliadau cymunedol er mwyn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, gyda golwg ar ganfod dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau cymunedol.

Nodwyd bwriad Menter Môn i drefnu cyfarfod hefo swyddogion gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor Sir yn ystod yr wythnos nesaf er mwyn trafod y camau nesaf ac yna cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr y cymunedau perthnasol. Awgrymodd swyddogion Menter Môn mai un opsiwn fyddai cynnal peilot gyda dwy lyfrgell yn y lle cyntaf.

Mewn ymateb i gais am eglurder o ran yr amserlen ar gyfer paratoi achosion busnes, eglurodd Jackie Lewis y byddai'n realistig cael achosion busnes unigol mewn lle erbyn Mawrth/Ebrill 2017.

**Cytunwyd y dylid cylchredeg adroddiad Martin Price Associates i aelodau'r Grŵp er gwybodaeth.**

## 3. Toiledau Cyhoeddus

Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol mewn perthynas â throsglwyddo toiledau cyhoeddus i'r cymunedau. Er bod nifer o gynghorau tref/cymuned wedi datgan diddordeb - ac i'r amserlen wreiddiol gael ei hymestyn - ni dderbyniwyd ymrwymiad i redeg toiledau cyhoeddus gan yr un cyngor hyd yn hyn.

Cyfeiriodd at gontract glanhau'r toiledau a fyddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017 ac eglurodd bod y Cyngor Sir yn edrych ar ymestyn hyd y contract er mwyn rhoi mwy o amser i'r cymunedau ystyried ymhellach.

Cafwyd cais gan y Cyng Stan Zalot i drosglwyddo toiledau Biwmares i'r Cyngor Tref, yn hytrach na'r trefniant cytundeb les sy'n bodoli ar hyn o bryd. Hefyd, gan fod y toiledau'n agos at Gastell Biwmares, gofynnodd am gefnogaeth y Cyngor Sir yn nhrafodaethau'r cyngor Tref gyda Cadw mewn perthynas â chostau cynnal a chadw'r toiledau. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Sir yn trafod y materion hyn ymhellach gyda Chyngor Tref Biwmares.

Nodwyd y byddai'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn cyflwyno diweddariad pellach o ran trosglwyddo toiledau cyhoeddus i'r cyfarfod nesaf o'r Fforwm Cyswllt sydd i'w gynnal ar 24 Tachwedd 2016.

**4. Y weledigaeth ar gyfer Llangefni**

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y cynhaliwyd cyfarfod o Bartneriaeth Llangefni yn ystod mis Medi er mwyn trafod y ffordd ymlaen o ran cydweithio. Nodwyd y bwriad i gynnal y cyfarfod nesaf yng Ngholeg Menai ar 3 Tachwedd er mwyn trafod materion llywodraethiant ac adnabod ffrydiau gwaith, gyda golwg ar gael gweledigaeth mewn lle erbyn Mawrth 2017.

**5. Cyllideb 2017/18**

Dosbarthwyd copïau o'r cynllun ymgynghori drafft ar gyfer cynigion cyllidebol y Cyngor Sir ar gyfer 2017/18. Er bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd bach yn setliad drafft Llywodraeth Cymru, pwysleisiodd yr Arweinydd bod y pwysau ariannol yn parhau.

Nodwyd y bydd y cyfnod ymgynghori yn cymryd lle rhwng 11 Tachwedd ac 16 Rhagfyr 2016 ac y disgwylir i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r gyllideb yn derfynol ym mis Chwefror 2017.

Dywedodd yr Arweinydd bod presenoldeb yn y sesiynau 'galw heibio' o amgylch yr ynys a gynhaliwyd y llynedd wedi bod yn siomedig ac eglurodd ei fwriad i gynnal sesiynau tebyg eleni ar gais yn unig. Gofynnodd i'r cynrychiolwyr cynghorau tref a oedd yn bresennol adael iddo wybod os oeddynt yn dymuno cael sesiynau o'r fath yn eu hardaloedd nhw.

Gofynnwyd am ragor o fanylder am y gyllideb ddrafft er mwyn dangos sut mae'r Cyngor Sir yn cyfiawnhau'r cynigion a wnaed.

**6. Cyfarfod nesaf y Fforwm Cyswllt**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm Cyswllt llawn ar nos Iau, 24 Tachwedd 2016 am 7 yh.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 yh.